**PWYLLGOR NEWID HINSAWDD**
**19 MAWRTH 2024**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Newid Hinsawdd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Mercher, 19 Mawrth 2024.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Alasdair Ibbotson (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Gillian Brockley, Steve Copple, Chrissy Gee, Ian Hodge, Roz Mansell, Allan Marshall, Carolyn Preece, Dan Rose, Jason Shallcross a Sam Swash

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd: Hilary McGuill (ar ran Mared Eastwood)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Dave Healey (Aelod Cabinet Newid Hinsawdd a'r Economi) a Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorydd Linda Thomas yn bresennol fel arsylwr.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Stryd a Strategaeth Cludiant Rhanbarthol), Prif Swyddog (Cynllunio, Yr Amgylchedd a'r Economi), Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd a Rheolwr Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 43. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

## 44. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2024, fel y'u cynigiwyd a'u heiliwyd gan y Cynghorwyr Gillian Brockley a Carolyn Preece.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 45. CYNLLUNIO WRTH GEFN AR GYFER GWRES LLETHOL

Cafwyd cyflwyniad gan Helen Kilgannon, Rheolwr y Gwasanaeth Cynllunio at Argyfwng Rhanbarthol yn ymdrin â'r canlynol:

- Pam ein bod yn Cynllunio Rhag Argyfwng
- Deddfwriaethau eraill
- Argyfyngau a Digwyddiadau Sylweddol
- Beth sy'n gallu achosi argyfyngau?
- Beth yw Gwasanaeth Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru?

- Strwythur Cynllunio Rhag Argyfwng yng Nghyngor Sir y Fflint
- Argyfyngau diweddar yn Sir y Fflint a Gogledd Cymru
- Gweithgaredd rhanbarthol diweddar
- Strwythur y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth
- Ymateb i Covid
- Ôl-drafodaeth
- Prif risgiau yng Ngogledd Cymru
- Newid Hinsawdd
- E-ddysgu Aelodau Etholedig

Pan ofynnodd y Cynghorydd Hilary McGuill am ymrwymiad cyhoeddus fe gynghorodd y Rheolwr Rhanbarthol fod cynlluniau yn eu lle i sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei rannu a'i ddiweddaru gan dîm gwybodaeth y Cyngor a grŵp amlasiantaeth yn dibynnu ar y sefyllfa. Cyfeiriodd hefyd at y system rhybuddio mewn argyfwng wedi'i beilota gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Holodd y Cynghorydd Chrissy Gee am gymorth gyda chynllun llifogydd yn ardal Brychdyn. Cytunodd y Rheolwr Rhanbarthol i anfon manylion cyswllt perthnasol ymlaen o fewn ei thîm ynghyd â'r rheiny yng Nghyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru. Yn dilyn ymholiad pellach fe gadarnhaodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) bod archwiliad i lifogydd Waterco yn dal i fynd rhagddo ac y byddai'r canlyniad yn cael ei rannu gyda'r Cyngor Cymuned ac Aelodau lleol.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Roz Mansell ar bwysigrwydd trwsio tyllau ffordd a chlirio draeniau fel mesurau i osgoi llifogydd fe gytunodd y Cynghorydd Dave Hughes i gwrdd â hi er mwyn trafod y sefyllfa ymhellach. Ymatebodd y Prif Swyddog hefyd i sylwadau gan y Cynghorwyr Jason Shallcross a Gillian Brockley ar broblemau llifogydd.

Gofynnodd y Cynghorydd Steve Copple i gael gweithio gydag ardaloedd diwydiannol i atal achosion trychinebus. Cafwyd enghreifftiau gan y Rheolwr Rhanbarthol o ymrwymo sefydliadau ar eu cynlluniau diogelwch mewnol ac i gael ymateb gan y Swyddog Dyletswyddau Statudol ar yr ymagwedd o leihau'r risg o ryddhau nwyon.

Wrth ymateb i safbwyntiau'r Cynghorydd Allan Marshall, fe gyfeiriodd y Rheolwr Rhanbarthol at Brotocol Rhyngweithredu Gwasanaethau Brys ar y Cyd sy'n cynnwys manylion ar yr ymagwedd o waith amlasiantaethau mewn achosion o argyfwng.

Gofynnodd y Cadeirydd am yr ymateb mewn argyfwng i dywydd poeth ac eglurwyd rôl y Fforwm Lleol Cymru Gydnerth gydag adolygu risgiau, yn ogystal â gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn rhannu gwybodaeth a rôl y timau Gofal Cymdeithasol mewn adnabod cymorth i bobl ddiamddiffyn. Awgrymodd hefyd y datblygiad posib o 'ganolbwyntiau oeri' er mwyn ymateb i wres llethol pe bai cyllid ar gael.

Cynigodd y Cadeirydd i dderbyn y cyflwyniad gyda'r Cynghorydd Brockley yn eilio'r cynnig.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth ar gynllunio wrth gefn ar gyfer tywydd eithafol gyda Gwasanaethau Cynllunio Rhag Argyfwng Rhanbarthol Cynghorau Gogledd Cymru.

## 46. ADRODDIAD SICRWYDD AC ASESIAD RISG ARCHWILIO CYMRU – CYNLLUN LLEIHAU CARBON

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad ar ganlyniad adroddiad Archwilio Cymru ar ymrwymiad a chamau gweithredu'r Cyngor gyda charbon yn erbyn darganfyddiadau eu hadroddiad sector gyhoeddus gyfan. Mae'r adroddiad wedi cael ei ystyried gan Gabinet a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Yr Amgylchedd a'r Economi.

Yn ystod trafodaeth fe ddywedodd y Cynghorydd Allan Marshall y dylai'r ddeddfwriaeth gan Lywodraeth Cymru gael ei gefnogi gyda chyllid perthnasol.

Wrth gydnabod yr argymhelliad gan Archwilio Cymru fe ofynnodd y Cynghorydd Steve Copple os oedd y diffyg cyllid yn cyflwyno risg i uchelgais y Cyngor a dywedodd bod enillion bach yn ffordd ymlaen o ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol.

Dywedodd y Prif Weithredwr y byddai'r Cyngor yn adolygu'r strategaeth a'i uchelgeisiau o fewn y 18 mis nesaf a byddai yna gyfle am ymrwymiad gan y Pwyllgor. Aeth ymlaen i gyfeirio at y posibilrwydd o ddefnyddio cynlluniau Salix (fel yr oedd eisoes wedi'i wneud yn y blynyddoedd diwethaf) er mwyn cyfrannu at arbedion effeithiolrwydd ynni yn ogystal â phrosiectau lleihau carbon wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf.

Awgrymodd y Cadeirydd fod swyddogion o'r tîm Cyllid Cyfalaf yn cael eu gwahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod yr opsiynau sydd ar gael i gyflawni amcanion y Cyngor. Awgrymodd y Prif Swyddog y byddai'r eitem yn gallu ymgorffori enghreifftiau cadarnhaol o sut y mae prosiectau yn y blynyddoedd a fu wedi cael eu hariannu.

Wrth ymateb i sylwadau gan y Cynghorydd Hilary McGuill ar yr angen am fwy o ddatblygiadau carbon niwtral newydd fe gynghorodd y Prif Swyddog er mai cyfrifoldeb Rheoli Adeiladau oedd hyn yn bennaf y byddai trefniadau yn cael ei gwneud ar gyfer hyfforddiant Pwyllgor Cynllunio. Cyfeiriodd y Cadeirydd at drafodaeth ar y pwnc hwn yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2023.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan y Cynghorwyr Ian Hodge a Carolyn Preece.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi canlyniad adroddiad Archwilio Cymru a chefnogi'r camau a gymerir i fynd i'r afael â'u hargymhelliad.

## 47. <u>GWRTHBWYSO CARBON MASNACHOL</u>

Cyflwynodd y Swyddog Prosiect Newid Hinsawdd adroddiad sy'n cyflwyno'r diben a'r defnydd o wrthbwyso carbon masnachol er mwyn cyflawni'r targed Carbon Sero Net erbyn 2030. Darparodd olwg cyffredinol o'r prif bwyntiau yn cynnwys cwrdd â'r safonau perthnasol, enghreifftiau o'u defnydd, y manteision a'r anfanteision.

Wrth ymateb i gwestiynau gan y Cynghorydd Dan Rose fe ddarparodd y Swyddog Prosiect eglurhad ar yr ymagwedd a argymhellwyd i grwpiau cymunedol gyda mynediad i dir. Cytunodd i gael mwy o eglurder ar gyfleoedd i flaenoriaethu cyllid ar gredydau carbon di-elw a'r broses ddisgwyliedig ar gyfer prynu gwrthbwysiadau.

Gyda dal a storio carbon fe siaradodd y Cynghorydd Allan Marshall am yr angen i annog tirfeddianwyr i reoli gwrychoedd yn fwy effeithiol er mwyn annog tyfiant. Byddai'r Swyddog Prosiect yn edrych os yw hynny'n ffurfio rhan o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac unrhyw fentrau eraill perthnasol.

Yn dilyn sylwadau gan y Cynghorydd Hilary McGuill, fe gytunodd y Swyddog Prosiect i edrych ar y prosiect gwrthbwyso carbon wedi'i ddatblygu gan Compact Syngas Solutions yng Nglannau Dyfrdwy ac os byddai'n bosib i'r Cyngor gynnig cefnogaeth.

Mynegodd y Cadeirydd ei bryderon am wrthbwyso carbon a oedd wedi arwain at yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor yn y lle cyntaf.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig a'u heilio gan y Cynghorwyr Dan Rose ac Allan Marshall.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

(a) Bod y Cyngor ddim yn prynu gwrthbwysiadau cael gwared ar garbon tra bod cyfleoedd i leihau ac amsugno carbon yn bodoli'n barod a hynny er gwaethaf targed carbon sero net 2030; a

(b) Dim ond pan fydd yr holl gyfleoedd lleihau carbon wedi cael eu defnyddio, neu ddim yn gymwys, y dylai'r Cyngor ystyried prynu gwrthbwysiadau carbon i ddod yn garbon sero net. Mewn achos o'r fath fe ddylai'r Cyngor flaenoriaethu prosiectau gwrthbwyso sy'n lleol ac yn cwrdd â safonau cadarn/wedi'u cefnogi gan Lywodraeth y DU.

## 48. <u>DIWEDDARIAD AR YMCHWILIADAU</u>

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r dyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer Chwefror yn cael eu hail-drefnu ac y byddai Aelodau yn cael eu hysbysu o'r dyddiadau newydd.

**49.** **<u>Y RHAGLEN WAITH</u>**

Wrth ystyried y rhaglen waith presennol cytunwyd bod swyddog o'r tîm Cyllid Cyfalaf yn cael ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol i drafod opsiynau ariannol i gefnogi prosiectau yn ymwneud â hinsawdd.

Ar y sail honno, cynigwyd ac eiliwyd yr argymhellion gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Dan Rose.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith, fel y'i diwygiwyd.

**50.** **<u>AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL</u>**

Roedd yna un aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10am a daeth i ben am 11.35am)

**…………………………**
**Y Cadeirydd**